Tips ar sut i ofalu a threfnu blodau



1. **Rhowch dŵr mewn fâs/jwg fel ei bod bron yn hanner llawn gan gofio ychwanegu cynnwys y pecyn o fwyd blodau. Mae'n bwysig bod y fâs yn lân iawn, dw i'n defnyddio dŵr gyda 'bleach' ynddo i lanhau'r fâs cyn ychwanegu'r blodau. Gwiriwch lefel y dŵr yn ddyddiol gan ychwanegu rhagor pan fod angen.**

2. **Tynnwch unrhyw dail o waelod coesau'r blodau. Ni ddylai'r dail fod o dan lefel y dŵr.**

3. **Torrwch waelod coesyn pob blodyn ac unrhyw wyrddni yn lletraws gyda chyllell neu siswrn miniog cyn eu hychwanegu i'r dŵr. Gellir mesur y blodau yn erbyn y fâs yn gyntaf cyn eu torri.**

4. **Dechreuwch osod unrhyw wyrddni yn gyntaf ac wedyn ychwanegwch y blodau, gan ddefnyddio yr un fath ar y tro.**

5. **Os yn bosib rhowch y blodau allan o ffordd unrhyw wres neu ddrafft ac allan o olau'r haul.**

6. **Cofiwch dynnu unrhyw flodau sydd wedi gwywo neu betalau a dail sydd wedi troi'n frown pob hyn a hyn.**

gan **Siwan Thomas**

menter iaith Castell-nedd Port Talbot

Cyswllt: 07849139353 | menter@micnpt.cymru | Rhif Cwmni 6156176